

Cynnig i adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120

## Adroddiad Ymgynghori



[sirgar.gov.uk](http://sirgar.gov.uk)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol .....</b>	<b>1</b>
<b>Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol .....</b>	<b>3</b>
<b>Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig .....</b>	<b>6</b>
<b>Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn .....</b>	<b>9</b>
<b>Ymgynghori â Disgyblion .....</b>	<b>10</b>

# Crynodeb Gweithredol

## Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 21 Medi 2020, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynigion i wneud y canlynol:

- symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 21 Medi 2020, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 1 Tachwedd 2020. Daeth 41 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg Ar-lein	E-bost	Cyfanswm
40	1	41

Rhaid nodi bod pob un o'r 41 o sylwadau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

## **Digwyddiad Ymgynghori**

Oherwydd goblygiadau parhaus Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach ac o ganlyniad cafodd sesiwn galw heibio i drafod cynigion ei chanslo.

Yn sgil canslo sesiwn galw heibio, cynigiwyd cyfle i randdeiliaid drafod cynigion gyda Swyddog Addysg drwy gyfarfod rhithwir. Ni ofynnodd unrhyw randdeiliaid am gyfarfod rhithwir i drafod cynigion.

## **Yr Ymatebion a Ddaeth i Law**

Paratowyd y cynnig hwn oherwydd bod mwy o ddisgyblion na'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Heol Goffa ar hyn o bryd gyda 101 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2020. O ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i ddarparu adeilad ysgol cyflwr A i ddisgyblion Ysgol Heol Goffa ar safle newydd gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

## Cefnogol

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Cefnogaeth i'r cynnig
- Thema 3 – Capasiti
- Thema 4 – Dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Thema 5 – Safle Presennol yr Ysgol

## Pryderon

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Thema 3 – Safle Presennol yr Ysgol

Caiff y 41 o ymatebwyr eu categoraiddio fel a ganlyn:

- Rhiant (5)
- Aelod o Staff (5)
- Llywodraethwr Ysgol (6)
- Arall (25)

## Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	93%	Ddim yn gefnogol	7%
----------	-----	------------------	----

## Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 1 Tachwedd 2020 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

## Y Camau Nesaf

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i gael sylwadau ac argymhelliad, ac wedyn yn y pen draw i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor y Gwanwyn 2021.

## Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<p><b>Dim rheswm</b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.</p>		<b>22</b>	<b>54%</b>
2.	<p><b>Cefnogaeth i'r cynnig</b> Roedd ymatebwyr o blaid y cynnig i gynyddu capasiti i 120 o leoedd gan ddarparu adeilad ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif gan roi gwell cyfleoedd ADY gyda chyfleusterau cymunedol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi, oherwydd cynnydd yn y galw am leoedd, fod angen ysgol newydd â chyfleusterau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	<b>12</b>	<b>29%</b>
3.	<p><b>Capasiti</b> Gofynnodd ymatebwyr a fyddai 120 o leoedd yn ddigonol i ateb y galw am leoedd yn y dyfodol.</p>	<p>Mae capasiti mewn lleoliadau arbenigol ar draws yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried, o ganlyniad mae'n debygol y bydd angen mwy o leoedd mewn nifer o leoliadau yn ôl yr angen a ragwelir. Nid ein bwriad yw cynyddu capasiti Heol Goffa ymhellach gan y credwn fod 120 o</p>	<b>2</b>	<b>5%</b>

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
		leoedd yn ddigonol ac y byddant yn darparu canran o'r capasiti ADD sydd ei angen.		
4.	<b>Dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif</b> Nododd ymatebwyr fod angen cynnwys manau gollwng a chasglu digonol yn nyluniad y cynllun. Nodwyd hefyd y dylid cynnwys cyfleoedd ehangu yn y dyfodol yn nyluniad y cynllun.	Caiff dyluniad yr ysgol ei ystyried a'i ddatblygu gan y timau dylunio mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr yr ysgol a'r Corff Llywodraethol. Mae'r manau mewnol ac allanol yn cael eu datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol Bwletin Adeiladu 104 ar gyfer dylunio ysgolion arbennig.	2	5%
5.	<b>Safle Presennol yr Ysgol</b> Gofynnodd yr ymatebwyr am ddyheadau'r Awdurdod ar gyfer safle presennol yr ysgol.	Mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiad llawn o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg dros y misoedd nesaf a bydd hyn yn cynnwys holl ysgolion y sir gan gynnwys safle presennol Ysgol Heol Goffa.	2	5%
<b>Pryderon a Godwyd</b>				
1.	<b>Dim rheswm</b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu pryderon.		1	2%
2.	<b>Dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif</b>	Caiff dyluniad yr ysgol ei ystyried a'i ddatblygu gan y timau dylunio mewn ymgynghoriad â	1	2%

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
	Mynegwyd pryderon ynghylch manau mewnlol yn nyluniad yr ysgol newydd.	chynrychiolwyr yr ysgol a'r Corff Llywodraethol. Mae'r manau mewnlol ac allanol yn cael eu datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol Bwletin Adeiladu 104 ar gyfer dylunio ysgolion arbennig.		
3.	<b>Safle Presennol yr Ysgol</b> Gofynnodd ymatebwr am yr angen i adeiladu ar safle newydd.	Nid yw safle presennol yr ysgol yn ddigon mawr i adeiladu a darparu ar gyfer ysgol arbennig sydd â lle i 120 a chyfleusterau ar gyfer yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif. Ni fyddai'n cynnig gwerth am arian i weithredu 2 safle, felly mae safle newydd a ffefrir wedi'i nodi wrth ymyl Ysgol Pen Rhos a gwblhawyd yn ddiweddar.	1	2%

## Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

**Ymateb Estyn i'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### **Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu ei capasiti o 75 i 120.

### **Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n glir fanteision y cynnig wrth fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth, a thrwy wella cyfleusterau ar gyfer disgyblion mewn ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal neu wella safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig, sef cynyddu capasiti'r ysgol i ddelio â galw cynyddol am leoedd, a gwella cyfleusterau a darpariaeth ar gyfer disgyblion trwy ddarparu adeilad newydd gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif. Mae'r cynigiwr wedi trefnu darpariaeth addas i bobl ymateb i'r cynnig o ganlyniad i'r coronafeirws, gan gynnwys darparu sesiynau galw i mewn rhithwir, os gwneir cais amdanynt. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i fanteision ac anfanteision cymharol y cynnig, yn ogystal â'r risgiau, ac wedi darparu gwrth-fesurau addas.



Mae'r data'n dangos bod gormod o alw am leoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd, ac mai dyma fu'r duedd am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r dalgylch ar gyfer yr ysgol yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan. Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol y byddai'r cynnig i gynyddu'r capasiti yn lliniaru risg gorfod anfon disgyblion allan o'r dalgylch o bosibl i gael y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, o ganlyniad i ddiffyg capasiti ar y safle presennol. Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol ei fod wedi ystyried dewisiadau eraill yn lle'r cynnig presennol hwn, gan gynnwys cynnal y sefyllfa bresennol ac adnewyddu'r safle presennol. Mae wedi esbonio'n glir na fyddai'r cyfyngiadau ar y safle presennol yn galluogi'r cynigiwr i gynyddu capasiti'r ysgol.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr, gan fod y safle newydd 3.8 milltir oddi wrth y safle presennol. Mae'r cynigiwr yn datgan y bydd 'cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod, neu ble mae disgybl / dysgwr yn destun gweithdrefn asesu statudol lle mae ganddo anawsterau dysgu y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried eu bod yn gwneud cludiant yn 'angenrheidiol'.

Mae'r cynigiwr wedi cwblhau asesiad priodol o'r effaith ar y gymuned sy'n dangos yn glir fanteision safle ysgol newydd i'r gymuned yn y ward. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad ar y cyd i gae 3G gydag Ysgol Pen Rhos, a defnydd cymunedol o'r cyfleusterau arbenigol y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r cynigiwr wedi cwblhau asesiad addas o'r effaith ar degwch a chydarddoldeb sy'n ystyried yn glir effaith y cynigion ar ddisgyblion sy'n dangos y nodweddion gwarchodedig. Mae'r asesiad hwn hefyd yn ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg. Mae'n cydnabod bod darpariaeth ddwyieithog yn ysgolion ac unedau arbennig yr awdurdod yn gyfyngedig ac y bydd yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn, gan gynnwys Ysgol Heol Goffa, i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'n darparu unrhyw fanylion ar sut mae'n bwriadu gwneud hyn.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr yn esbonio'n glir nad yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau dros gyfnod, oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Mae'r cynigiwr wedi darparu data priodol ar berfformiad presennol yr ysgol, fel cymharu perfformiad grwpiau o ddisgyblion, ac yn datgan bod pawb sy'n gadael yr ysgol yn ennill un cymhwyster neu fwy sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u galluoedd unigol. Nid yw'r cynigiwr yn rhoi gwerthusiad o gynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae'r cynigiwr yn darparu gwerthusiad clir o'r modd y mae'n ystyried bod darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae'r cynigiwr yn credu y bydd y cynnig yn darparu amgylchedd

dysgu o ansawdd da ar gyfer disgyblion a fydd yn cynnal y safonau presennol rhagorol ac yn gwella profiadau ar gyfer disgyblion. Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol ei fod yn lleihau'r tarfu ar ddysgwyr i'r eithaf trwy eu cadw ar safle presennol yr ysgol hyd nes bydd adeilad yr ysgol newydd yn barod.

Mae'r ysgol wedi'i chategoreiddio yn wyrdd, sy'n dangos ei bod yn hynod effeithiol ac yn gwybod beth mae'n ei wneud yn dda, a beth mae angen iddi wella.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol hefyd i ddeilliannau arolygu diweddaraf Estyn (2017) ar gyfer Ysgol Heol Goffa lle barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol am ei pherfformiad presennol, ac yn rhagorol am ei rhagolygon gwella. Mae'n dangos sut bydd y cynnig yn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn adroddiad Estyn ynglŷn â'r amgylchedd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gofod ychwanegol a darpariaeth well ar gyfer addysgu disgyblion yn y sector ôl-16 gyda medrau bywyd a medrau galwedigaethol, a thrwy gynnwys pwll hydrotherapi ar y safle.

## Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal neu wella'r safonau addysg presennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

### Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n glir fanteision y cynnig wrth fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth, a thrwy wella cyfleusterau ar gyfer disgyblion mewn ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal neu wella safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig, sef cynyddu capasiti'r ysgol i ddelio â galw cynyddol am leoedd, a gwella cyfleusterau a darpariaeth ar gyfer disgyblion trwy ddarparu adeilad newydd gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif. Mae'r cynigiwr wedi trefnu darpariaeth addas i bobl ymateb i'r cynnig o ganlyniad i'r coronafeirws, gan gynnwys darparu sesiynau galw i mewn rhithwir, os gwneir cais amdanynt. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i fanteision ac anfanteision cymharol y cynnig, yn ogystal â'r risgiau, ac wedi darparu gwrth-fesurau addas.

Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol y byddai'r cynnig i gynyddu'r capasiti yn lliniaru risg gorfod anfon disgyblion allan o'r dalgylch o bosibl i gael y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, o ganlyniad i ddiffyg capasiti ar y safle presennol.

Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol ei fod wedi ystyried dewisiadau eraill yn lle'r cynnig presennol hwn, gan gynnwys cynnal y sefyllfa bresennol ac adnewyddu'r safle presennol. Mae wedi esbonio'n glir na fyddai'r cyfyngiadau ar y safle presennol yn galluogi'r cynigiwr i gynyddu capasiti'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn esbonio'n glir nad yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau dros gyfnod, oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Mae'r cynigiwr wedi darparu data priodol ar berfformiad presennol yr ysgol, fel cymharu perfformiad grwpiau o ddisgyblion, ac yn datgan bod pawb sy'n gadael yr ysgol yn ennill un cymhwyster neu fwy sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u galluoedd unigol

# Ymgynghori â Disgyblion

**Ysgol:** Ysgol Heol Goffa

**Dyddiad:** 13 Hydref 2020

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan:** Karen Draper – Ymgynghorydd Cymorth Addysgol

**Cynhaliwyd cyfweiliad gyda:** Aelodau o gyngor yr ysgol (ar-lein oherwydd coronafeirws)

## **Beth yw barn y disgyblion am gael ysgol newydd gyda lleoedd am fwy o ddisgyblion?**

Mae'r disgyblion yn hapus, yn gyffrous, ond hefyd ychydig yn nerfus. Mae rhai plant ychydig yn bryderus gan nad ydynt yn hoffi newid ac mae rhai o'r disgyblion oedran uwchradd yn drist gan na fyddant yn gallu mynychu'r ysgol newydd.

Mae disgyblion yn gyffrous am y llethr sgïo, y fenter, y stiwdio, y pwll hydrotherapi, a'r cylchoedd pêl fased. Ond maent hefyd yn teimlo'n hapus oherwydd bydd lle i bawb, gan gynnwys eu hathrawon.

Maent hefyd yn gobeithio cael y canlynol:

Cegin fwd, llwyfan i berfformio arno, pwll tywod, llawer o fannau awyr agored, manau tawel gyda blancedi, manau picnic, coed, cwningen, cwrs rhwystrau, trampolîn, cuddfannau, siglenni, wal ddringo a gweithfan DIY.

## **Sut bydd pwll hydrotherapi yn yr ysgol yn eu helpu?**

Mae'n bwysig iawn gan fod angen i ddisgyblion ymestyn eu cyrff, ni fydd angen iddynt deithio mor bell, felly byddant yn y pwll am fwy o amser ac yn amlach ac mae'n helpu gyda choesau pobl.

## **A oes unrhyw beth y maent yn ansicr yn ei gylch?**

Roedd y disgyblion yn pryderu mai dim ond un ystafell staff oedd ar gael ond roeddent yn hapus i gael gwybod bod gan y staff le awyr agored hefyd.

Wrth edrych ar y cynlluniau, roeddent yn teimlo bod y pwll yn edrych yn eithaf bach ond roeddent yn hapus i gael gwybod mai dim ond at eu defnydd nhw yr oedd hyn.

Roedd cwestiwn ynghylch y defnydd o'r pwll gan yr holl ddisgyblion. Eglurodd yr pennaeth presennol y byddai disgyblion sydd â chynlluniau corfforol yn cael cyfle i'w ddefnyddio'n gyntaf.

Roedd cwestiwn ynghylch enw'r ysgol newydd - dywedodd y pennaeth presennol wrth y disgyblion fod ganddi syniad ond mae'n bosibl y bydd swyddogion yr ALL yn ei henwi. Roedd y disgyblion yn bendant eu bod am fod yn rhan o'r bleidlais.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch cludo offer i'r ysgol newydd.

### **Beth yr hoffent ei ddweud wrth y bobl sydd wedi helpu hyn i ddigwydd?**

Mae'r disgyblion a'r staff am ddweud diolch enfawr, ond hefyd..." brysiwch!"

Roedd pob disgybl o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig.

